

**Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 29 Gorffennaf 2021 ar ffurf cyfarfod ar-lein a ddarllledwyd yn fyw drwy Microsoft Teams**

**Aelodau'n bresennol:**

|                 |   |
|-----------------|---|
| Marcus Longley  | Cadeirydd y BIP                                   |
| Paul Mears      | Y Prif Weithredwr                                 |
| Jayne Sadgrove  | Is-gadeirydd                                      |
| Dilys Jouvenat  | Aelod Annibynnol                                  |
| Ian Wells       | Aelod Annibynnol                                  |
| James Hehir     | Aelod Annibynnol                                  |
| Mel Jehu        | Aelod Annibynnol                                  |
| Nicola Milligan | Aelod Annibynnol                                  |
| Patsy Roseblade | Aelod Annibynnol                                  |
| Hywel Daniel    | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl                      |
| Linda Prosser   | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |
| Dom Hurford     | Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro                     |
| Steve Webster   | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Chaffael         |

**Eraill yn bresennol:**

|                     |   |
|---------------------|---|
| Cally Hamblyn       | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg             |
| Angela Jones        | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd                    |
| Debbie Bennion      | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio                              |
| Lee Leyshon         | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu        |
| Julia Sumner        | Pennaeth Cyfathrebu a'r Cyfryngau                       |
| Esyllt George       | Cydlynnydd y Celfyddydau ac Iechyd                      |
| Leah Salter         | Hyrwyddwr y Celfyddydau ac Iechyd                       |
| Wendy Penrhyn Jones | Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol a Busnes y Bwrdd |
| Emma Walters        | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol                      |

**Eitem ar yr agenda**

**1 MATERION RHAGARWEINIOL**

**1.1 Croeso a Chyflwyniadau**

**Croesawodd** y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni.

**2 BIP CTM YN MYFYRIO AR Y FLWYDDYN 2021 – CYFLWYNIAD FIDEO**

I ategu'r Adroddiad Blynyddol, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei fyfyrnodau o'r flwyddyn 2021 mewn cyflwyniad fideo a rannwyd yn y cyfarfod.

Wrth gloi'r eitem, dywedodd y Cadeirydd y bydd y fideo yn cael ei lanlwytho i wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd a'i bod ar gael gydag isdeitlau Cymraeg a Saesneg. Diolchwyd hefyd i'r Tîm Cyfathrebu a Llywodraethu Corfforaethol am gynhyrchu'r fideo.

**Penderfyniad: DERBYNIWYD a NODWYD y fideo.**

### **3. CELFYDDYDAU CREADIGOL MEWN IECHYD A LLES**

Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn falch iawn o groesawu Esyllt George, Cydlynedd y Celfyddydau mewn Iechyd, i gyflwyno cyflwyniad fideo a ddatblygwyd i arddangos agweddau ar y celfyddydau creadigol ym maes iechyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Wrth gyflwyno'r fideo, bu E George yn myfyrio ar effaith ac ehangder y diddordeb yn y celfyddydau a chreadigrwydd ar gyfer iechyd a lles trwy'r holl Fwrdd Iechyd yn ystod blwyddyn mor heriol wrth ymateb i'r pandemig.

Rhannodd Dr L Salter, Hyrwyddwr Celfyddydau mewn Iechyd yn y Bwrdd Iechyd, ei myfyrdodau ar sut mae'r celfyddydau mewn iechyd wedi creu cyfle a chysylltiad â gweithio mewn partneriaeth ehangach ac ymgysylltu â'n cymunedau.

**Penderfyniad: DERBYNIWYD a NODWYD y fideo.**

### **4. PERFFORMIAD CERDDOROL GAN GÔR BIP CTM**

Wrth gyflwyno'r côr, cydnabu'r Cadeirydd, er bod gan y Bwrdd Iechyd lawer o heriau o'i flaen wrth iddo barhau i reoli ei ymateb i'r pandemig ac ailosod ei wasanaethau, roedd perfformiad Côr Staff BIP CTM o "I Can See Clearly Now" wedi cipio ysbryd y Bwrdd Iechyd ac ein bod ni i gyd yn obeithiol am ddyddiau gwell i ddod.

Dyweddodd A Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, fod y cyflwyniadau fideo a gafwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn tynnu sylw at bwysigrwydd lles meddyliol ac emosiynol a'r rôl sydd gan greadigrwydd a'r celfyddydau ym maes iechyd.

### **5. CYFLWYNO ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2021 YN FFURFIOL**

Dyweddodd C Hamblyn mai diben y cyflwyniad heddiw yw cofnodi'n ffurfiol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi, fod y Bwrdd Iechyd wedi llunio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y cyfnod adrodd ariannol 2020-2021. Cymeradwywyd hyn gan y Bwrdd ar 9 Mehefin 2021.

Esboniodd C Hamblyn fod yr Adroddiad Blynyddol yn adroddiad unedig sy'n ymgorffori'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cyfleu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Taliadau yn ogystal â'r Adroddiad o Berfformiad a'r datganiadau ariannol.

Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol, wrth ei ddatblygu, wedi cael ei adolygu a bod yn destun craffu cadarn yn fewnol ac yn allanol trwy Lywodraeth Cymru (LIC), Archwilio Cymru a chydweithwyr archwilio mewnol.

Diolchwyd i Wendy Penrhyn-Jones a chydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd sydd wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r Adroddiad Blynyddol a hefyd i LIC, Archwilio Cymru a chydweithwyr archwilio mewnol am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wrth ei ddatblygu a'i gyflwyno.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno ar wefan y Bwrdd Iechyd yn Saesneg a Chymraeg.

**Penderfyniad: DERBYNIWYD A NODWYD** yr Adroddiad Blynyddol.

## **6 DIWEDD SEFYLLFA CYLLID Y FLWYDDYN**

Cyflwynodd S Webster Drosolwg Ariannol ar gyfer 2020-2021, gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Paratowyd Cyfrifon Cyfunol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM), gan ymgorffori Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (PGIAC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys, y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu lletya.
- Nid yw cynnal PGIAC a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys yn creu effaith ariannol net ar Gwm Taf Morgannwg.
- Dangosir ffigurau BIP CTM yn unig ar wahân i'r ffigurau cyfunol yn y cyfrifon.
- Mae'r cyflwyniad hwn yn tynnu sylw at ffigurau BIP CTM yn unig mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
  - Targedau ariannol allweddol
  - Crynodeb o'r gwariant refeniw
  - Crynodeb o'r fantolen

**Penderfyniad: DERBYNIWYD A NODWYD** y cyflwyniad.

## **7. SESIWN HOLI AC ATEB**

Cadarnhaodd y Cadeirydd na ddaeth unrhyw gwestiynau i law cyn nac yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## **8. SYLWADAU I GLOI**

Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a wylodd, a dywedodd ddiolch o galon i weithlu BIP CTM am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddarparu gwasanaethau dros gyfnod a gafodd ei ddominyddu gan yr ymateb i bandemig COVID-19.

Mynegodd y Cadeirydd ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i barhau i ddysgu a gwella ei wasanaethau ac iechyd y boblogaeth dros y 12 mis nesaf.